Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2025

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mawrth 2026

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 61(3) (b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.



## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys

| | | |
|---|---|---|
| Ciplun archwiliad | | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | | 7 |
| Ein canfyddiadau | | 9 |
| Argymhellion | | 33 |
| 1 | Ynglŷn â'n gwaith | 37 |
| 2 | Argymhellion archwilio blaenorol | 40 |
| 3 | Ymatebion y rheolwyr | 57 |
| 4 | Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 64 |
| Amdanom ni | | 67 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom ystyried pa mor dda y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) yn cael ei lywodraethu a pha un a yw'n gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau. Fe wnaethom fwrw golwg ar bedwar maes yn arbennig:

- pa mor dda y mae ei fwrdd yn gweithio;
- sut y mae'n cadw golwg ar risgiau, perfformiad, ansawdd gwasanaethau, ac argymhellion;
- sut y mae'n cynhyrchu cynlluniau a strategaethau allweddol; a
- sut y mae'n rheoli ei gyllid.

2 Fe wnaethom hefyd fwrw golwg ar gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran rhoi argymhellion ar waith o'r canlynol:

- adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol; a hefyd
- ein hadroddiad yn 2024 ar arbed costau.

## Pam fod hyn yn bwysig

3 Mae cyrff y GIG yn dal i wynebu ystod eang o heriau sy'n gysylltiedig â'r angen i foderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau i ymdrin â chyllid cyfyngedig, galw cynyddol, ôl-groniadau triniaeth, prinderau o fewn y gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio. Mae'n bwysicach nag erioed felly bod gan fyrddau cyrff y GIG drefniadau llywodraethu corfforaethol ac ariannol cryf. Mae hyn yn helpu i roi sicrwydd iddynt hwy eu hunain, i'r cyhoedd, ac i randdeiliaid allweddol eu bod yn cymryd y camau cywir i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd da ac i ddefnyddio arian cyhoeddus yn ddoeth.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

4 Canfuom fod y Bwrdd a'i bwyllgorau'n gweithredu'n effeithiol gyda thrafod agored a herio effeithiol. Fodd bynnag, mae trefniadau arwain gweithredol yn peri peth pryder. Er bod Tîm Gweithredol yn ei le a hwnnw'n un parhaol i raddau helaeth, mae'r Prif Weithredwr yn dal i gael ei dynnu'n rhy helaeth i mewn i faterion gweithrediadol ac arweinyddiaeth ar raglenni penodol. Ceir angen hefyd i sicrhau bod portffolios gweithredol yn cefnogi arweinyddiaeth sefydliadol fwy cyfunol gan y Tîm Gweithredol yn hytrach na bod hyn yn cael ei ymddiried i ychydig o unigolion yn unig.

5 Cydnabyddir nad yw model gweithredu cyfredol y Bwrdd Iechyd yn addas ar gyfer y diben. Mae angen atebolrwydd llawer cryfach ac eglurach am berfformiad o ystyried yr heriau sylweddol i ddarparu gwasanaethau a wynebir gan y sefydliad. Mae'r rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol sy'n amcanu at gyflwyno model gweithredu newydd yn fenter sy'n angenrheidiol ac yn briodol o ran pa mor uchelgeisiol ydyw. Fodd bynnag, mae ei gweithredu'n cymryd yn hwy nag a fwriadwyd yn wreiddiol. Mae'r dyddiad gweithredu diwygiedig, sef Ebrill 2026, yn edrych yn gryn her o ystyried mai gwybodaeth gyfyngedig a lefel-uchel am y model a rannwyd gyda'r Bwrdd. Bydd yn rhaid wrth ymarfer ymgynghori mewnol helaeth hefyd cyn y gellir cyflwyno'r model.

6 Mae'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio'n gryf ar ateb ei ofynion ariannol statudol. Mae'n galonogol ei fod wedi gallu cyflwyno cynllun tymor canolig ariannol fantoledig, er nad oedd modd cymeradwyo'r cynllun oherwydd diffyg manylder ynghylch dulliau cyflawni. Mae angen ffocws ar gynaliadwyedd ariannol tymor hwy o hyd, er bod hyn yn cael ei rwystro gan ddiffyg parhaus cynllun gwasanaethau clinigol.

7 Ceir goruchwyliaeth dda ar berfformiad ariannol, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg o £17.4 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn yn seiliedig ar y sefyllfa ym mis deg. Mae hefyd yn achosi pryder sylweddol bod nifer o gytundebau atebolrwydd ar gyfer 2025-26 wedi cael eu llofnodi'n hwyr iawn ym mlwyddyn ariannol 2025-26, gan gynnwys gan nifer o ddeiliaid cyllidebau yn y Tîm Gweithredol.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

8 Rydym wedi cyflwyno naw argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd yn y meysydd canlynol:

- cynyddu tryloywder ym musnes y Bwrdd;
- cryfhau llinellau sicrwydd i bwyllgorau'r Bwrdd;
- cryfhau cydnerthedd yn y Tîm Gweithredol;
- sicrhau bod rheolaethau ariannol yn cael eu deall yn dda, yn cael eu disgrifio'n glir ac y cytunir arnynt; a
- sicrhau digon o gapasiti rheoli rhaglen ar gyfer ei waith i adolygu strwythurau gweithredol.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

Yn fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd Llywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd ar lefel 5 (Mesurau Arbennig) ar hyn o bryd.

Yn 2024-25, roedd gan y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £7.6 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

Yn 2024-25, roedd y Bwrdd Iechyd yn anelu at arbed £48 miliwn ond fe arbedodd £58.4 miliwn yn y diwedd.

Cafodd datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-25 eu cyflwyno ar amser ar gyfer archwiliad allanol. Cafodd y cyfrifon farn ddiamod ynglŷn â'u Cywirdeb a'u Tegwch. Fodd bynnag, cawsant hefyd farn reoleiddiol amodol am na wnaeth y Bwrdd Iechyd adennill costau rhwng 2022-23 a 2024-25.

Er iddo gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig ariannol fantoledig am y tro cyntaf mewn 13 o flynyddoedd, ni chymeradwywyd y cynllun gan Lywodraeth Cymru, oherwydd methiant i nodi sut y byddai'r Bwrdd Iechyd yn cwrdd â disgwyliadau cyflawni Llywodraeth Cymru mewn nifer o feysydd allweddol.

Mae’r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ac, yn seiliedig ar y sefyllfa ym mis deg, mae’n rhagweld diffyg o £17.4 miliwn ar gyfer 2025-26.

Mae’r Bwrdd Iechyd wedi rhoi 11 argymhelliad ar waith yn llawn allan o 19 o argymhellion asesu strwythuredig a oedd yn weddill ers ein hadroddiad diwethaf.

# Ein canfyddiadau

## Effeithiolrwydd y Bwrdd ac arweinyddiaeth weithredol

**Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n gweithredu'n dda. Gan bod y rhan fwyaf o rolau'r tîm gweithredol bellach wedi'u llenwi'n barhaol, mae'n hollbwysig bod cyfrifoldebau'n cael eu dirprwyo a'u dosbarthu'n fwy effeithiol ymhlith y tîm hwnnw**

### Pa mor agored yw busnes y Bwrdd i'r cyhoedd

9 Mae'r Bwrdd yn rhedeg ei gyfarfodydd mewn ffordd agored a hygyrch. Cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd yn y cnawd yn Llandudno, gyda chyfarfodydd ychwanegol yn cael eu cynnal ar-lein. Mae cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael. Gall y cyhoedd ymuno â chyfarfodydd trwy fod yn bresennol yn yr ystafell neu eu gwylio ar YouTube, naill ai'n fyw neu fel recordiad. Mae aelodau'r Bwrdd yn siarad yn agored ac nid ydynt yn osgoi trafod pynciau anodd.

10 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gael mynediad at wybodaeth am ei bwyllgorau. Mae'r wefan yn egluro sut y gall pobl ofyn am gael mynychu cyfarfodydd ei bwyllgorau cyhoeddus sy'n cael eu cynnal yn y cnawd yn bennaf. Yn wahanol i gyfarfodydd y Bwrdd, nid ydynt yn cael eu ffrydio'n fyw ond maent yn cael eu recordio at ddibenion y cofnodion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried ffyrdd o gynyddu tryloywder cyhoeddus cyfarfodydd yn unol â'i Reolau Sefydlog.

11 Yn gyffredinol, ymdrinnir yn briodol â sesiynau preifat cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau. Caiff papurau sy'n egluro pam fod eitemau'n cael eu cadw'n breifat eu darparu gan mwyaf, ond mewn ychydig iawn o achosion mae'r wybodaeth hon yn eisiau. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud yn siŵr bod yr wybodaeth hon yn cael ei chynnwys bob amser. Fe wnaeth rhai o'r bobl y cyfwelom ni â hwy awgrymu hefyd y gallai awduron fod yn fwy gofalus wrth wahanu gwybodaeth sy'n sensitif ac nad yw'n sensitif i wneud rhagor o wybodaeth yn gyhoeddus.

12 Bu cynnydd bach yn nifer y penderfyniadau a wnaed fel camau gweithredu gan y cadeirydd yn 2025 er bod y Bwrdd Iechyd yn rheoli'r rhain yn briodol.[1] Dywed y Bwrdd Iechyd fod hyn wedi digwydd am bod ceisiadau ychwanegol wedi dod i mewn na ellid yn rhesymol bod wedi eu rhagweld cyn cyfarfod ffurfiol. Roedd y rhan fwyaf o adroddiadau am gamau gweithredu gan y cadeirydd dros y 12 mis diwethaf yn dangos yn glir sut y cawsant eu cefnogi gan Aelodau Annibynnol, ac roedd camau gweithredu wedi'u dogfennu'n dda, gan gynnwys goblygiadau ariannol penderfyniadau, er ein bod yn nodi nad oedd yr adroddiad ar gyfer mis Tachwedd 2025 yn cynnwys y manylion hyn gan eu bod yn sensitif yn fasnachol oherwydd hawliad unigol.

13 Mae papurau i gefnogi'r Bwrdd a phwyllgorau'n cael eu cyhoeddi'n brydlon ac yn unol â'r Rheolau Sefydlog fel rheol. Mae achosion o dorri rheolau mewn perthynas â chyflwyno papurau'n hwyr yn cael eu gwneud yn hysbys i'r Pwyllgor Archwilio er bod aelodau wedi codi pryderon yn y Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn nad yw pob achos o gyflwyno papurau'n hwyr yn cael eu cofnodi ar y log torri rheolau.

14 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd pwyllgorau ar ôl iddynt gael eu cadarnhau yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor, sy'n nodweddiadol ddau neu dri mis yn hwyrach. Fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd adroddiadau "Rhybuddio, Sicrhau, Cynghori" ar y prif bwyntiau ym mis Rhagfyr 2024. Darperir y rhain ym mhecynnau agenda'r Bwrdd ac maent yn crynhoi penderfyniadau a phwyntiau trafod allweddol pwyllgorau mewn modd effeithiol i helpu i ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd. Os nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu cyhoeddi cofnodion yn fwy prydlon, dylai ystyried lanlwytho'r adroddiadau Rhybuddio, Sicrhau, Cynghori i'w wefan cyn papurau'r Bwrdd fel mesur amgen.

[1] Mae 'cam gweithredu gan y cadeirydd' yn cyfeirio at benderfyniad a wneir y tu allan i un o sesiynau ffurfiol y Bwrdd neu bwyllgor.

## Rhoi cymorth i gynnal busnes y Bwrdd yn effeithiol

15 Mae’r Bwrdd Iechyd yn gweithio i wella ei brosesau ar gyfer cofnodi datganiadau o fuddiant, rhoddion a lletygarwch. Fe wnaeth archwiliad mewnol o safonau cynnal busnes yn 2023-24 ddarparu sgôr sicrwydd cyfyngedig yn y maes hwn. Canfu ei archwiliad dilynol, er bod peth cynnydd wedi cael ei wneud, fod llawer o gamau gweithredu heb gael eu cymryd eto. Roedd y rhain yn cynnwys cryfhau prosesau cymeradwyo a chywirdeb y Gofrestr gyhoeddedig o Fuddiannau Aelodau’r Bwrdd. Mae’r Bwrdd Iechyd yn gweithio i fynd i’r afael â’r materion hyn erbyn mis Mawrth 2026.

16 Mae’r Bwrdd Iechyd yn diweddaru ei bolisïau sy’n hwyr yn cael eu diweddaru; fodd bynnag, araf fu’r cynnydd. Er y gweithredwyd i wella’r sefyllfa yn 2024, erbyn mis Hydref 2025 roedd 38% (40 allan o 104) o gyfanswm ei bolisïau’n dal heb gael eu diweddaru. O’r rhain, dim ond saith allan o 18 o bolisïau risg-uchel sydd wedi cael eu diweddaru yn y chwe mis diwethaf. Mae hi felly’n bwysig bod y newidiadau y mae’r Bwrdd Iechyd yn eu gwneud ar hyn o bryd i ddiwygio ei broses rheoli polisïau’n rhoi cymorth i’w hadolygu’n fwy prydlon.

## Sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y Cydbwyllgor Comisiynu

17 Fe sefydlwyd y Cydbwyllgor Comisiynu ym mis Ebrill 2024 fel cydbwyllgor rhwng y saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Mae’n gyfrifol am gynllunio a chomisiynu ystod o wasanaethau arbenigol a gwasanaethau gofal iechyd eraill, gan gynnwys gwasanaethau meddygol brys, ar ran y saith bwrdd iechyd.

18 Fel rhan o asesiad strwythuredig eleni, fe wnaethom adolygu pa un a yw’r Bwrdd yn cael y lefel gywir o sicrwydd ynghylch pa mor effeithiol y mae’r Cydbwyllgor Comisiynu’n gweithredu, yn ogystal ag ymwneud y Bwrdd Iechyd â chyfarfodydd a gweithgareddau’r Cydbwyllgor Comisiynu.

19 Mae'r Bwrdd wedi cael peth gwybodaeth sy'n gysylltiedig â gweithgarwch y Cydbwyllgor Comisiynu yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn wedi cynnwys dau adroddiad ar y prif bwyntiau o ran canlyniadau diogelwch ac ansawdd gan y Cydbwyllgor Comisiynu i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad a newidiadau i reolau sefydlog y Cydbwyllgor Comisiynu. Fodd bynnag, un o'r themâu cyson yn ein cyfweliadau ni oedd nad oedd aelodau'r Bwrdd yn teimlo eu bod yn gweld digon o wybodaeth am weithgarwch y Cydbwyllgor Comisiynu ac ymwneud y Bwrdd Iechyd â hynny. I gryfhau goruchwyliaeth ymhellach a sicrhau bod y Bwrdd yn teimlo'i fod yn cael gwybodaeth well, gallai'r Bwrdd Iechyd rannu cofnodion cyfarfodydd y Cydbwyllgor Comisiynu gyda'r Bwrdd yn fel rhan o'r drefn reolaidd.

## Effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau

20 Mae ein harsylwadau ni ar gyfarfodydd pwyllgorau yn ystod 2025 wedi canfod bod pwyllgorau'n gweithio'n dda fel rheol. Mae cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n dda ac ma aelodau'n ymlynu wrth foeseg cyfarfodydd ac yn darparu cydbwysedd da rhwng craffu a chefnogi. Fodd bynnag, yn enwedig yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, rydym wedi nodi nad yw'r Cyfarwyddwyr Gweithredol arweiniol wastad yn bresennol i drafod materion sydd weithiau'n rhai allweddol mewn papurau a chofnodion, yn benodol adroddiadau archwilio megis ein hadroddiadau ni ar ofal a gynlluniwyd a gofal brys ac argyfwng. Byddai penderfyniadau mewn pwyllgorau'n cael eu cryfhau trwy sicrhau cynrychiolaeth fwy cyson gan aelodau priodol o'r Tîm Gweithredol ar gyfer yr eitemau allweddol hyn.

21 Bob blwyddyn, mae pwyllgorau'n adolygu eu cylchoedd gorchwyl a'u cylchoedd busnes i sicrhau bod eu hagendâu'n cyd-fynd â blaenoriaethau allweddol y Bwrdd Iechyd a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Rydym wedi nodi, serch hynny, nad oedd cadeiryddion pwyllgorau wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd fel grŵp yn 2025 oherwydd heriau o ran capasiti. Mae'n bwysig bod y cyfarfodydd hyn yn digwydd yn rheolaidd i'w gwneud yn bosibl croesgyfeirio materion rhwng pwyllgorau a thriongli risgiau allweddol. Rydym yn deall bod yr heriau hyn o ran capasiti wedi cael eu datrys bellach, gyda chyfarfodydd i fod i ailddechrau yn gynnar yn 2026.

22 Mae'r tîm Llywodraethu Corfforaethol yn gweithredu i wella ansawdd papurau'r Bwrdd a phwyllgorau. Canfuom fod papurau weithiau'n canolbwyntio ar ddisgrifio gweithgarwch, yn hytrach nag egluro canlyniadau perfformiad a darparu taflwybrau realistig ar gyfer gwella. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyhoeddi templed newydd ar gyfer papurau ac mae'n hyfforddi awduron adroddiadau yn 2026.

## Clywed gan staff a defnyddwyr gwasanaethau

23 Mae'r Bwrdd a phwyllgorau'n clywed yn briodol gan gleifion a staff trwy adroddiadau ffurfiol a storïau sy'n helpu i osod y cywair ar gyfer trafodaethau dilynol. Mae'r Bwrdd yn cael eitem ym mhob cyfarfod sy'n cynnwys profiad claf neu ofalwr. Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi trefnu bod ei stori am brofiad claf yn cyd-fynd ag eitem ar agenda'r Bwrdd, megis ar gyfer gofal brys ac argyfwng, sy'n ei helpu i driongli gwybodaeth.

24 Mae aelodau'r Bwrdd yn cymryd rhan mewn ymweliadau i glywed am brofiadau'n uniongyrchol gan staff a chleifion. I gryfhau hyn ymhellach, ym mis Tachwedd 2025, fe ddatblygodd y Bwrdd Iechyd brotocol ffurfiol i gefnogi'r Bwrdd wrth ymweld â gwahanol wasanaethau ar draws y sefydliad.

## Cydlyniad y Bwrdd a'i wella'n barhaus

25 Mae'r Bwrdd bellach yn sefydlog o ran ei aelodaeth. Dim ond un newid fu i'r cnewyllyn o Aelodau Annibynnol gydag un aelod yn gadael ym mis Awst 2025 ac un arall yn dechrau ym mis Hydref 2025. Mae cyfnod yr Is-gadeirydd yn ei swydd wedi cael ei estyn tan fis Tachwedd 2026.

26 Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen datblygu'r Bwrdd a werthfawrogir. Cafodd y sesiynau datblygu deufisol eu datblygu gan aelodau'r bwrdd ac fe'u cefnogir gan hwyluswyr allanol. Cynhelir y sesiynau datblygu hyn bob yn ail â sesiynau briffio'r bwrdd a gynhelir bob deufis ar faterion amserol megis cynllunio gwasanaethau clinigol ac adrodd ar berfformiad.

27 Mae'r Bwrdd yn myfyrio'n rheolaidd ynghylch effeithiolrwydd ei gyfarfodydd. Cafodd ei hunanasesiad diweddaraf gyfradd ymateb dda ac fe adnabu'r hyn sy'n gweithio'n dda a ble y mae angen gwelliannau. Rhoddodd aelodau adborth cadarnhaol ar lefel y rhyngweithio a'r her mewn cyfarfodydd. Fe wnaethant hefyd awgrymu meysydd ar gyfer gwella, gan gynnwys eglurhau rôl aelodau cyswllt, byrhau papurau, a chanolbwyntio'n fwy ar faterion strategol yn hytrach na manylion gweithrediadol.

28 Fe gynhaliodd pwyllgorau eu hunanasesiadau eu hunain, a gododd themâu tebyg. Mae'r ymarferion hyn yn dangos dull aeddfed ac ymrwymiad ar y cyd i wella'n barhaus. Ochr yn ochr â'r adolygiadau blynyddol, mae myfyrio'n anffurfiol ynghylch cyfarfodydd yn eitem reolaidd ar agendâu'r Bwrdd a phwyllgorau.

## Arweinyddiaeth Weithredol

29 Yn Asesiad Strwythuredig y llynedd, fe wnaethom sylw am yr angen i lenwi swyddi gwag yn y Tîm Gweithredol yn barhaol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi'n llwyddiannus i dair rôl Weithredol wag, gan adael un swydd interim. Mae hyn yn gam arwyddocaol ymlaen o ran sefydlu Tîm Gweithredol sefydlog a pharhaol.[2,3]

30 Er nad yw'r materion a ddisgrifiom ni yn y Tîm Gweithredol yn ein hadolygiad gwreiddiol o Effeithiolrwydd y Bwrdd ym mis Chwefror 2023 yn bresennol mwyach, mae'r Tîm Gweithredol yn dal i beidio â gweithredu yn y ffordd y mae angen iddo weithredu. Un o'r pryderon amlwg a ddaeth i'r fei o'n gwaith ni eleni yw bod y Prif Weithredwr yn cael ei dynnu i mewn i faterion gweithrediadol ac arweinyddiaeth ar raglenni mewn ffordd sy'n rhoi pwysau sylweddol ar eu capasiti ac sy'n cael effaith o ran pa mor gyflym y gall datblygiadau pwysig symud ymlaen. Nid yw hon yn sefyllfa gynaliadwy yng nghyd-destun natur a maint yr heriau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd symud ar frys i sefyllfa lle gall y Prif Weithredwr weithredu ar lefel uwch, gydag aelodau o'r Tîm Gweithredol yn cael eu dwyn i gyfrif am arwain eu portffolios yn unol â'u hawdurdodau dirprwyedig.

[2] Prif Swyddog Gweithredu parhaol, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2025, Cyfarwyddwr Meddygol parhaol, a ddechreuodd ym mis Hydref 2025 ac yn fwy diweddar Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl parhaol, sydd i fod i ddechrau yn gynnar yn 2026, yw'r rhain.

[3] Roedd swydd Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol yn cael ei dal gan ddeiliad swydd interim gyda'r cyfnod hwnnw i fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2026 fel yr oedd hi ar adeg ein hadolygiad ni.

31 Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, mae'n bwysig bod portffolios Gweithredol yn realistig ac y gellir eu cyflawni ac nad ydynt yn arwain at ymddiried y cyfrifoldeb am arwain rhai o heriau mwyaf arwyddocaol y sefydliad i ychydig o uwch arweinwyr yn unig. Un maes y bydd angen cadw golwg arno yw dichonoldeb portffolio'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid. Mae hwn wedi cael ei ehangu'n ddiweddar i gynnwys cyfrifoldebau a arferai fod yn rhan o rôl y Cyfarwyddwr Perfformiad a Chomisiynu. Mae gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid gyfrifoldebau hefyd fel y "Cyfarwyddwr Cyflawni" ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd, sy'n cynnwys darparu goruchwyliaeth a sicrwydd ar gyfer dyluniad a gweithredu'r rhaglen gyflawni. Mae hyn ochr yn ochr â'r Prif Swyddog Gweithredu sy'n gyfrifol am leoli gweithrediadol o ddydd i ddydd i gyflawni'r rhaglen gofal a gynlluniwyd.

32 Gan bod y Bwrdd Iechyd yn dal i fod ar Lefel 5 y Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ac yn dal i wynebu heriau sylweddol o ran darparu gwasanaethau, mae'n hanfodol bod cyfrifoldebau arweinyddiaeth sefydliadol yn cael eu rhannu'n briodol ar draws y Tîm Gweithredol, fel y gall ddarparu'r arweinyddiaeth gyfunol a cholegaidd y mae ei hangen ar y sefydliad. Dylai hyn gynnwys proses i adnabod Dirprwy Brif Weithredwr dynodedig.

33 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd sefydlu'r Pwyllgor Gweithredol newydd i ddisodli cyfarfodydd cynharach ei Dîm Gweithredol ym mis Ionawr 2025. Ceir presenoldeb da yn y cyfarfodydd ac fe geir cofnod eglur o'r pwyntiau trafod allweddol a phenderfyniadau. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn atebol i'r Bwrdd, sy'n gwella tryloywder prosesau penderfynu ar lefel uwch. Er bod y gwaith hwn yn gadarnhaol, mae angen eglurhau a ffurfioli'r trefniadau ar gyfer yr is-strwythurau sy'n eistedd o dan y Pwyllgor Gweithredol ac yn adrodd wrtho. Mae angen sicrhau hefyd bod y Pwyllgor Gweithredol yn llwyr ymwybodol o ddatblygiadau sefydliadol allweddol, megis y Rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol, ac yn gallu dylanwadu arnynt. Nid yw'n ymddangos bod y rhaglen hon wedi cael ei thrafod yn y Pwyllgor Gweithredol, er gwaethaf ei phwysigrwydd canolog i drawsnewid sefydliadol.

# Darparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd

## Er gwaethaf cryn weithgarwch i adolygu fframweithiau sicrwydd, ar hyn o bryd nid ydynt yn arwain at ostwng sgoriau risg nac yn gwella perfformiad

### Rheoli risgiau strategol a chorfforaethol

34 Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd newydd, mwy cadarn yn ei le bellach a hwnnw'n cyd-fynd â phum blaenoriaeth strategol y Bwrdd Iechyd. Mae'r risgiau sydd wedi'u rhestru ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn rhoi sylw da ar y cyfan i feysydd risg allweddol. Hefyd, fe wnaeth y Bwrdd drafod a chytuno ar ei barodrwydd i dderbyn risg yn erbyn ei amcanion strategol yn ystod haf 2025. Fodd bynnag, fel a ddatganwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae rhagor o waith i'w wneud i sicrhau bod amcanion strategol y Bwrdd Iechyd yn rhai Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol (CAMPUS). Bydd gan y Bwrdd Iechyd gyfle i gryfhau hyn wrth iddo droi ei olygon tuag at ddiwygio ei weledigaeth hirdymor yn 2026.

35 Ceir goruchwyliaeth weithrediadol a chorfforaethol reolaidd ar risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd gan y rheolwyr. Adroddir ar risgiau hefyd wrth bob pwyllgor a'r Bwrdd ac maent hwythau'n craffu arnynt a hynny'n rheolaidd. Er bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi darparu adolygiad â sicrwydd rhesymol o reoli risgiau yn ddiweddar, fe nododd nifer o faterion, megis adolygiadau a oedd yn hwyr yn cael eu cynnal a diffyg cynlluniau gweithredu CAMPUS.

36 Mae diwygiadau i'r gofrestr risgiau corfforaethol yn rhoi anogaeth i fod â mwy o oruchwyliaeth strategol ar risgiau, ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd gadw golwg ar hyn i sicrhau nad yw'n rhy lefel-uchel bellach i ategu craffu a goruchwylio corfforaethol effeithiol. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ddrafft ddiwygiedig yn cynnwys 11 o risgiau strategol gyda detholiad o'r risgiau corfforaethol mwy gweithrediadol wedi'u hisgyfeirio i gael eu rheoli'n weithrediadol ar lefel Cyfarwyddwyr. Dangosodd trafodaeth yn y Pwyllgor Archwilio fod angen i'r rheolwyr wneud rhagor o waith i sicrhau bod risgiau wedi'u diffinio'n glir. Ar hyn o bryd, mae'r gofrestr risgiau corfforaethol ar lefel mor uchel fel y gallai arwain at ddehongli risgiau'n wahanol. Hefyd, er bod adroddiadau'n dangos yn gyson pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â risgiau, ychydig iawn o sgoriau risg sy'n newid yn ystod y flwyddyn, gan awgrymu angen i ganolbwyntio'n well ar effaith camau lliniaru.

## Rheoli perfformiad

37 Nid yw fframwaith perfformiad y Bwrdd Iechyd yn gwneud digon i ysgogi'r gwelliannau mewn perfformiad sy'n ofynnol eto. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi comisiynu gwaith yn ddiweddar i ddatblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad mwy targededig. Ei nod yw gwella'r modd y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n craffu ar berfformiad trwy sicrhau bod metrigau wedi'u diffinio'n ddigonol ac yn eglur. Rydym yn nodi gwelliannau i Adroddiad Perfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd ym mis Rhagfyr 2025 sy'n darparu mwy o ddadansoddiad o effaith ei weithgareddau gwella ar gyfer meysydd lle nad yw perfformiad ar y trywydd iawn.

38 Fe wnaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygu'r fframwaith perfformiad cyfredol ym mis Gorffennaf 2025 a rhoi sgôr sicrwydd cyfyngedig iddo. Un o'r gwendidau allweddol a adnabuwyd oedd nad oedd unrhyw gofnodion ysgrifenedig o gyfarfodydd perfformiad rhwng gwasanaethau gweithrediadol a'r tîm gweithredol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd bod yn siŵr bod perfformiad gwael yn cael ei reoli'n iawn. Dynododd llawer o'n cyfweliadau faterion gyda threfniadau atebolrwydd aneglur a gwan, gan gynnwys diffyg cyfarfodydd rheoli perfformiad rheolaidd mewn cyfarwyddiaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi camau gweithredu i ymateb i'r gwendidau a adnabuwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn y maes hwn.

39 Er bod y Bwrdd a'i bwyllgorau'n craffu'n rheolaidd ar ddarparu gwasanaethau, mae perfformiad yn erbyn nifer o dargedau allweddol yn dal i fod yn wael neu'n gwaethygu. Mae hyn yn arwain at fwy a mwy o rwystredigaeth o fewn y Bwrdd a phryder cynyddol gan Lywodraeth Cymru. Er y bu rhai gwelliannau nodedig, megis yng nghyfraddau cwynion a gostyngiad mewn llwybrau sy'n aros 104 wythnos neu ragor rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth ac mewn llwybrau sy'n aros 52 wythnos neu ragor am apwyntiad cyntaf fel claf allanol, mae perfformiad mewn meysydd allweddol eraill yn dal i fod yn destun pryder. Mae hyn yn cynnwys perfformiad ehangach gofal a gynlluniwyd a chywirdeb rhestrau aros cysylltiedig, gofal brys ac argyfwng, gwasanaethau canser, gofal sylfaenol, deintyddiaeth, a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed.

40 Gan adlewyrchu heriau parhaus y Bwrdd Iechyd o ran rhoi gofal diogel, prydlon ac effeithiol, ym mis Tachwedd 2025 fe gyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol fesurau pellach i gynorthwyo'r sefydliad i ymdrin â'r heriau hyn. Bydd y cymorth ar ffurf tîm bach o arbenigwyr a fydd yn gweithio ochr yn ochr â'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd i ysgogi gwelliannau cyflym ar draws nifer o feysydd gwasanaeth allweddol.

## Monitro ansawdd a diogelwch

41 Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gwaith dilynol ar gamau gweithredu i ymateb i argymhellion a wnaethom yn ein Hadolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd yn 2022. Mae'r gwaith hwn hefyd yn ymgorffori adolygiad o'r camau sy'n cael eu cymryd gan y Bwrdd Iechyd i roi'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd newydd dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ar waith. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar y gwaith hwn yn gynnar yn 2026.

## Tracio a monitro argymhellion

42 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i wella ei ddull o ymateb i argymhellion, ond mae rhagor i'w wneud. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n cael yr offeryn tracio argymhellion archwilio ym mhob cyfarfod trwy ei Adroddiad Cydymffurfio Statudol sefydlog. Mae hwn yn cynnwys manylion argymhellion archwilio agored a'r rhai y cynigir eu cau. Mae adroddiadau'n darparu gwybodaeth am arolygu ac adolygiadau rheoleiddiol ehangach hefyd.

43 Dros y flwyddyn, rydym wedi nodi datblygiadau cadarnhaol, gan gynnwys dull gweddol systematig ar gyfer gweinyddu'r gronfa ddata argymhellion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu awtomeiddio hyn ymhellach y flwyddyn nesaf, gyda system ddigidol newydd yn 2026. Bydd hyn yn awtomeiddio'r broses ar gyfer anfon negeseuon atgoffa a thracio argymhellion sy'n hwyr yn cael eu rhoi ar waith. Er gwaethaf y materion ehangach yr ydym yn eu hadnabod ym mharagraff 20 mewn perthynas â phresenoldeb swyddogion Gweithredol mewn pwyllgorau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno proses dda lle mae Arweinwyr Gweithredol yn mynychu'r Pwyllgor Archwilio ar ddull cylchdro i drafod eu hargymhellion archwilio sydd heb gael eu rhoi ar waith.

44 Yn llai cadarnhaol, rydym wedi nodi materion parhaus gydag oedi ac anghyflawnder lle mae ymatebion y rheolwyr i argymhellion archwilio yn y cwestiwn. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain wedyn at oedi canlyniadol cyn adrodd wrth y pwyllgor. Canfuom hefyd, ers mis Mai 2025, y bu 60 o achlysuron lle nad oedd y dystiolaeth i gau argymhellion archwilio mewnol ac allanol yn ddigon. Rydym yn nodi bod hyn wedi dechrau gwella'n ddiweddar. Fel rhan o waith eleni, rydym wedi adolygu cynnydd y Bwrdd Iechyd gydag argymhellion mewn asesiadau strwythuredig blaenorol sy'n dal ar agor. Fel a ddangosir yn **Atodiad 2**, dim ond 11 allan o 19 o argymhellion a wnaed rhwng 2022 a 2024 sydd bellach wedi'u cau, tra bo eraill yn dal ar y gweill.

# Paratoi cynlluniau a newid sefydliadol

## Mae cynnydd i ddatblygu cynlluniau a gweithredu newid yn arafach nag a fwriadwyd

### Cynhyrchu strategaethau a chynlluniau allweddol

45 Mae datblygu strategaeth hirdymor a chynllun gwasanaethau clinigol y Bwrdd Iechyd yn cymryd yn hwy nag a fwriadwyd. Roedd yn disgwyl yn wreiddiol y byddai'r ddau gynllun yn eu lle erbyn mis Medi 2025. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gymeradwyo datganiad o weledigaeth strategol lefel-uchel a set o bedwar datganiad o fwriad strategol yng nghyfarfod ei Fwrdd ym mis Ionawr 2026. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu i'r datganiadau hyn ddarparu cyfeiriad clir wrth iddo fwrw ati i ddiweddaru ei strategaeth hirdymor. Er bod gwaith yn parhau i ddiweddaru ei strategaeth hirdymor, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio tuag at y pum amcan strategol[4] a nodwyd ganddo yn 2023, sydd wedi rhoi arweiniad ar gyfer ei waith cynllunio a rheoli risgiau diweddar.

[4] Y pum amcan strategol yw: Creu sefydliad effeithiol; Datblygu strategaeth a newid hirhoedlog; Creu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltu tosturiol; Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad; a sefydlu amgylchedd effeithiol ar gyfer dysgu.

46 Mae'r Bwrdd Iechyd yn amcanu yn awr at fod mewn sefyllfa i geisio adborth ar gynllun gwasanaethau clinigol drafft erbyn mis Ebrill 2026. Er bod pethau'n symud yn arafach nag a fwriadwyd, bydd hyn o leiaf yn galluogi aelodau o'r Tîm Gweithredol a benodwyd yn ddiweddar, gan gynnwys y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, i gyfrannu at ei ddatblygu.

47 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd adolygu a diweddaru ei amcanion llesiant yn 2025. Fel rhan o'r broses hon, fe ymgysylltodd â rhanddeiliaid allanol allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac fe geisiodd farn staff a'r cyhoedd trwy arolwg. Ar ôl y gwaith hwn, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddiwygio tri o'i amcanion presennol a chyflwyno dau amcan newydd i adlewyrchu deddfwriaeth ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynnal adolygiad pellach o'i amcanion llesiant unwaith y bydd ei strategaeth sefydliadol hirdymor wedi cael ei diweddaru, i sicrhau bod yr amcanion yn dal i gyd-fyd ag unrhyw flaenoriaethau strategol diwygiedig.

48 Fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd Gynllun Tymor Canolig Integredig ariannol fantoledig ar gyfer 2025-2028. Hwn yw'r cynllun ariannol fantoledig cyntaf iddo'i gyflwyno ers 2012-13. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gydnabod y cynnydd hwn ond roedd yn dal i fethu â chymeradwyo'r cynllun oherwydd gwendidau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys dim digon o wybodaeth am sut y byddai'r Bwrdd Iechyd yn ateb gofynion cyflawni Llywodraeth Cymru mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys gofal a gynlluniwyd, canser, diagnosteg, gofal brys ac argyfwng, diabetes, strôc, deintyddiaeth, a gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Canfu ein hadolygiad ni ein hunain hefyd y gallai'r cynllun gael ei gryfhau trwy gynnwys gwybodaeth am yr ymgysylltu mewnol ac allanol a fu'n rhan o'i ddatblygu.

49 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella sut y mae'n cynnwys Aelodau Annibynnol wrth ddatblygu ei Gynllun Tymor Canolig Integredig, ond mae angen rhagor o waith. Gwelodd aelodau ddrafft yn gynharach nag mewn blynyddoedd blaenorol (Rhagfyr 2024 a Chwefror 2025), sy'n beth cadarnhaol. Fodd bynnag, roedd bylchau yn y drafftiau cynnar a oedd yn ei gwneud yn anodd eu hadolygu. Mae'r Bwrdd yn bwriadu gwella ymgysylltiad ar gyfer 2026-27 trwy drafod themâu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn ystod gwaith i ddatblygu'r cynllun, gan wneud y broses yn fwy cynhwysol. Mae angen iddo hefyd gynnwys staff gweithrediadol yn agosach, yn enwedig y rhai yn ei strwythur Cymunedau Iechyd Integredig, yn ogystal â'i bartneriaid rhanbarthol.

## Newid sefydliadol

50 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw ei strwythur sefydliadol a'i fodel gweithredu cyfredol yn ategu atebolrwydd eglur ac effeithiol am y gwelliannau i wasanaethau sy'n angenrheidiol. Roedd angen am rolau, awdurdod a mecanweithiau atebolrwydd mwy eglur yn bryder cyffredin a godwyd gan y staff y gwnaethom ni gyfweld â hwy fel rhan o asesiad strwythuredig eleni.

51 Mewn ymateb i'r heriau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu rhaglen 'Sylfeini ar gyfer y Dyfodol'. Nod y rhaglen uchelgeisiol hon yw ysgogi gwelliannau sefydliadol trwy eglurhau rolau staff a diweddaru strwythurau, diwylliant, strategaethau, pobl a phrosesau. Er bod y rhaglen yn mynd rhagddi, mae'n cymryd yn hwy nag a fwriadwyd yn wreiddiol. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi bwriadu'n wreiddiol y byddai cam dylunio'r strwythur sefydliadol yn cael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2025 cyn dechrau rhoi strwythur newydd ar waith. Wedyn fe wnaed cynlluniau i rannu'r strwythur newydd gyda'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ym mis Tachwedd 2025, ond ni ddigwyddodd hyn ychwaith. Ym mis Ionawr 2026, fe drafododd y Bwrdd Iechyd bapur a oedd yn nodi canlyniadau'r gwaith darganfod ar strwythurau'r Bwrdd Iechyd. Fe gytunodd wedyn y gallai'r Bwrdd Iechyd symud ymlaen i'r cam 'cyflawni' nesaf gan gynnwys ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch y strwythurau newydd arfaethedig.

52 Er gwaethaf yr oedi yma, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fwriadu cyflwyno'r model gweithredu newydd yn ystod mis Ebrill 2026, ac mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn disgwyl cael strwythur drafft i'w adolygu ym mis Ionawr 2026. Fodd bynnag, mae'r raddfa amser ar gyfer ei gyflwyno'n gryn her o ystyried y capasiti cyfyngedig yn nhîm gweithredu'r rhaglen a'r angen am gryn dipyn o ymgynghori ac ymgysylltu â staff ar draws y Bwrdd Iechyd cyn ei gyflwyno. O fewn yr amserlen hon, bydd angen hefyd i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod Aelodau Annibynnol yn cael digon o amser i ystyried y newidiadau arfaethedig a chraffu arnynt. Hyd yma, cyfyngedig a lefel-uchel fu'r wybodaeth i'r Bwrdd mewn sesiynau ffurfiol ac yn sesiynau datblygu'r Bwrdd.

53 Cychwynnwyd y rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol yn 2024. Ers hynny mae nifer o swyddi allweddol yn y strwythur Cymunedau Iechyd Integredig cyfredol wedi cael eu cadw ar sail interim gyda swyddi eraill yn aros yn wag. Er y deellir na fydd ar y Bwrdd Iechyd eisiau recriwtio'n barhaol i strwythur sy'n mynd i newid, mae'r sefyllfa gyfredol yn arwain at ansicrwydd ar gyfer staff a bylchau yn arweinyddiaeth y Cymunedau Iechyd Integredig. O ran sicrhau bod digon o gapasiti i ganlyn arni'n gyflym â'r rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol, mae angen i hynny fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd Iechyd, gan nodi y bydd y newidiadau a ysgogir gan y rhaglen yn cymryd amser i ymwreiddio.

54 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn canlyn arni â'i raglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol heb i Gyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu parhaol fod yn ei swydd. Fodd bynnag, erbyn hyn mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu recriwtio i'r swydd honno a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd â'r rôl ar ddiwedd mis Chwefror 2026 gan ddod â chapasiti gweithredol y mae ei ddirfawr angen i roi cymorth i gyflwyno a gweithredu'r rhaglen.

## Sicrwydd i’r Bwrdd ynghylch gweithio mewn partneriaeth

55 Mae’r Bwrdd Iechyd yn cydweithio’n agos gyda phartneriaid allweddol i gyflawni blaenoriaethau cyffredin trwy’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Rhaglen y Chwe Nod. Mae hefyd yn ymgysylltu’n uniongyrchol â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a mudiadau’r trydydd sector, yn ogystal â’r corff llais dinasyddion, Llais. Defnyddir ymgysylltu i drafod blaenoriaethau allweddol a nodau strategol, gan gynnwys ei gynlluniau ar gyfer y gaeaf, cynlluniau gofal brys ac argyfwng ac i ddatblygu’r fenter Gogledd Cymru Iach.[5]

56 Er bod adroddiadau i’r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau’n amlygu gweithgareddau allweddol ar gyfer gwaith ymgysylltu penodol, megis cynllunio ar gyfer y gaeaf, gallai’r Bwrdd Iechyd wella sut y mae’n adrodd ar gydweithio. Fe wnaeth Archwiliad Mewnol ym mis Awst 2025 gydnabod camau y mae’r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i wella ymgysylltu a chyfathrebu ond rhoddodd farn sicrwydd cyfyngedig ar y cyfan. Roedd materion yn cynnwys methu â chydymffurfio â therfynau amser, tystiolaeth aneglur o gamau gweithredu a gwblhawyd, dim Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer ymgysylltu, a dim adroddiadau ar y strategaeth ymgysylltu rhwng mis Ionawr 2024 a mis Mawrth 2025.

## Monitro’r modd y cyflawnir strategaethau/cynlluniau

57 Mae adroddiadau ar gynnydd gyda’r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud yn weddol dda gyda’i gamau gweithredu arfaethedig. Yn 2024-25, fe gwblhaodd y Bwrdd Iechyd 85% o’r camau gweithredu yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (268 allan o 314). Ar gyfer y 46 o gamau gweithredu nas cwblhawyd, fe gytunodd y Bwrdd naill ai i’w cario ymlaen i mewn i 2025-26 neu i’w tynnu’n ôl.

[5] https://bevancommission.org/tackling-inequalities-together/

58 Fodd bynnag, mae newidiadau diweddar o ran sut y mae adroddiadau ar gynnydd gyda'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael eu cyflwyno wedi ei gwneud yn anos i'r Bwrdd dracio cynnydd a gweld sut y mae camau gweithredu'n effeithio ar berfformiad y sefydliad. Mae Cynllun Cyflawni Blynyddol yn cyd-fynd â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig i ddarparu cerrig milltir mwy manwl mewn perthynas â chyflawni cynlluniau. Cafodd y Bwrdd adroddiad cynnydd chwarterol ym mis Medi 2025, ac fe gafodd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth un ym mis Rhagfyr 2025. Mae newidiadau i arddull yr adroddiadau ers mis Medi 2025 yn golygu nad yw'n amlwg mwyach pa gamau gweithredu a gwblhawyd ym mhob chwarter gan nad yw adroddiadau ond yn canolbwyntio ar ystyried pa un a yw'r Bwrdd Iechyd yn hyderus y bydd camau gweithredu'n cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn, a chan nad ydynt yn dangos pa effaith allai camau gweithredu fod wedi ei chael ar eu canlyniadau bwriadedig neu beidio.

# Rheoli'r sefyllfa ariannol

## Er bod y Bwrdd Iechyd yn cadw ffocws cryf ar fantoli'r cyfrifon, ceir heriau sylweddol o hyd mewn perthynas â chynllunio ariannol a rheoli'r gyllideb

### Cyflawni amcanion a dyletswyddau ariannol

59 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cael cyllid cymorth strategol gan Lywodraeth Cymru ers mis Tachwedd 2020, sy'n cynnwys £40 miliwn y flwyddyn i roi cymorth i fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn. Er ei fod wedi bod yn cael £11.5 miliwn yn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar ben ei gyllid cymorth strategol, ar ddiwedd 2024-25 adroddodd y Bwrdd Iechyd ar ddiffyg o £7.6 miliwn. I roi hyn yn ei gyd-destun, serch hynny, roedd y diffyg yn gyfwerth â 0.4% o gyfanswm gwariant gweithrediadol y Bwrdd Iechyd ac roedd o fewn y cyfanswm rheoli ariannol o £8.6 miliwn a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

60 Methodd y Bwrdd Iechyd hefyd â chyflawni ei ddyletswydd statudol i adennill costau dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2022 a 2025 gyda chyfanswm diffyg o £31.52 miliwn. Yn fwy cadarnhaol, roedd y Bwrdd Iechyd yn gallu cyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig ariannol fantoledig ar gyfer y cyfnod 2025-2028. Fodd bynnag, nid oedd Llywodraeth Cymru'n gallu cymeradwyo'r cynllun am y rhesymau a nodir ym **mharagraff 49**.

61 Roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld y byddai'n mantoli'r cyfrifon ar ddiwedd 2025-26 tan fis naw. Roedd hyn er gwaethaf adroddiadau ariannol a oedd yn dangos sefyllfaoedd ariannol a oedd yn gryn her yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd y sefyllfa ddiweddaraf (mis 10) yn golygu ei fod yn rhagweld diffyg o £17.4 miliwn gydag adroddiadau ariannol yn amlygu risgiau o £26 miliwn mewn perthynas â Chwyddiant Tariff Cenedlaethol Lloegr a'r diffyg cyllid i dalu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwr, yn ogystal â phwysau o leoliadau y tu allan i'r ardal ar gyfer iechyd meddwl a gofal iechyd parhaus.

62 Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes gweddol dda o gyflawni arbedion. Yn 2024-25, roedd y cynllun ariannol yn golygu bod gofyn cyflawni arbedion cylchol o £48 miliwn. Erbyn diwedd y flwyddyn, fe gyflawnodd y Bwrdd Iechyd £58.4 miliwn, sef £10 miliwn yn fwy na'r swm y cynlluniwyd ar ei gyfer. Fodd bynnag, roedd £14.4 miliwn o hyn yn anghylchol ac yn cynnwys "enillion cyfrifyddiaeth".

## Trefniadau cynllunio ariannol

63 Cafodd ac fe drafododd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth gynllun ariannol y Bwrdd Iechyd cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd gyda'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ehangach ym mis Mawrth 2025. Fodd bynnag, roedd y cynllun ariannol yn canolbwyntio ar 2025-26, gyda dim ond manylion cyfyngedig, ar rheiny'n rhai lefel-uchel, am ei gynlluniau ariannol ar gyfer blynyddoedd dau a thri. Nid yw'r ffocws byrdymor hwn yn cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd yn ddigonol i wneud penderfyniadau strategol a thrawsnewidiol ar gyfer ei wasanaethau.

64 Nid yw dull cyfredol y Bwrdd Iechyd o bennu'r gyllideb o gymorth i gynllunio ar gyfer gwella gwasanaethau dros y tymor hwy. Yn 2025-26, fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi treiglo cyllidebau blynyddoedd blaenorol. Mae'r dull hwn yn cyfyngu ar fuddsoddiad targededig mewn meysydd lle mae angen gwelliant. Gwaethygir y broblem gan swyddi parhaol nas cyllidir yn y gweithlu. Heb broses gryfach, fel cyllidebau sylfaen sero, mae'r Bwrdd yn debygol o fethu â chyrraedd targedau ariannol a thangyllido ei nodau strategol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod hyn ac yn disgwyl i raglenni pwysig yn 2026, megis 'Sylfeini ar gyfer y Dyfodol' a datblygiad ei strategaeth hirdymor a'i gynllun gwasanaethau clinigol baratoi'r ffordd ar gyfer dull gwell.[6]

65 Ar gyfer 2025-26, fe bennodd y Bwrdd Iechyd darged arbedion o £40 miliwn. I gyrraedd hwn, fe ddefnyddiodd gymysgedd o ddulliau:

- pennu targed ar draws y sefydliad i dorri 1.5% o'i gyllideb; a
- defnyddio'r ffrwd waith Gwerth a Chynaliadwyedd i adnabod arbedion cylchol.

66 Pan gyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei gynllun ariannol 2025-26 i Lywodraeth Cymru, dim ond £20 miliwn o'r arbedion gofynnol yr oedd wedi'u hadnabod. Ni chwblhawyd y rhestr lawn o gynlluniau arbedion tan fis chwech. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod y ffrwd waith Gwerth a Chynaliadwyedd bellach yn gweithio i adnabod "llif" tymor hwy o arbedion a all ategu dull y Bwrdd Iechyd o wella costau.

---

[6] Mae cyllidebu sylfaen sero'n ddull cynllunio ariannol lle mae'n rhaid cyfiawnhau'r holl dreuliau ar gyfer pob cyfnod newydd, gan ddechrau o 'sylfaen sero' i sicrhau bod dyraniadau'n seiliedig ar anghenion a blaenoriaethau cyfredol yn hytrach na gwariant hanesyddol.

67 Ers mis Ebrill 2021, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cael £42 miliwn y flwyddyn o gymorth ariannol strategol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal a gynlluniwyd, gofal heb ei drefnu ac iechyd meddwl. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella'r modd y creffir ar gynlluniau gwariant ond mae amseriad y broses hon, a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddechrau, wedi peri rhai problemau hefyd. Fe arweiniodd y broses sgorio a chraffu ar gyfer cynigion at oedi gyda'r cyllid, a olygodd fod y Bwrdd Iechyd wedi ei chael hi'n anodd defnyddio'r adnoddau hyn ar gyfer prosiectau trawsnewid newydd eleni. Roedd y rhan fwyaf o'r arian wedi cael ei neilltuo'n barod i ariannu cyflogau staff parhaus, a olygodd nad oedd rhyw lawer yn weddill i gychwyn mentrau newydd.

## Trefniadau rheoli ariannol

68 Mae'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd yn adolygu Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd yn rheolaidd, a hwythau wedi gwneud hynny'n fwyaf diweddar ym mis Hydref 2025. Mae swyddogion yn hysbysu'r Pwyllgor Archwilio am unrhyw achosion o dorri'r rhain. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael adroddiadau rheolaidd ar raglen wrth-dwyll y Bwrdd Iechyd, ei bryniadau gwerth uchel, ei golledion, ei daliadau arbennig, a'i weithredoedd tendr sengl. Er eu bod yn dal i fod yn uchel, mae nifer yr archebion prynu nad oeddent yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn 2025-26 wedi gostwng o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod nifer o'r rhain yn rhai ar gyfer gwariant hysbys, ond bod natur neu symiau amrywiol archebion prynu'n golygu bod archebion ôl-weithredol yn cael eu cynhyrchu.

69 Fe anfonodd y Bwrdd Iechyd ei gytundebau atebolrwydd at ddeiliaid cyllidebau ar draws y sefydliad ym mis Awst 2025 (mis pump). Yn ogystal â chael eu cyhoeddi beth amser ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol, nid oedd y llythyrau'n nodi'r cyllidebau dirprwyedig yn eglur. O ganlyniad i hyn a materion eraill, roedd nifer o gytundebau atebolrwydd heb eu llofnodi ar draws y sefydliad ar adeg ein gwaith maes. O ran y sefyllfa ym mis Rhagfyr 2025, roedd 380 o gytundebau ar draws y sefydliad wedi cael eu llofnodi, ac roedd 50 heb gael eu dychwelyd eto a'r rheiny, yn hollbwysig, yn cynnwys 10 o'r 14 deiliad cyllideb yn y Tîm Gweithredol. Rydym yn deall bod hyn wedi gwella ers hynny gyda dim ond 11 heb eu llofnodi o ran y sefyllfa ym mis Chwefror 2026, a thri o'r rheiny yn y Tîm Gweithredol. Serch hynny, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer cytundebau atebolrwydd mewn blynyddoedd yn y dyfodol yn galluogi deiliaid cyllidebau i lofnodi eu cytundebau'n fwy prydlon.

70 Mae Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Cynllun Cadw a Dirprwyo (SORD) wedi'u diweddaru ond nid yw'r trefniadau dirprwyo ac awdurdod ar gyfer cyllidebau'n gweithredu fel a nodir. Ym mis Medi 2025, fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r fersiwn ddiweddaraf o'r SORD. Canfu ein hadolygiad fod y SORD newydd yn cynnig fframwaith manylach i nodi atebolrwydd ymhlith uwch swyddogion am wneud penderfyniadau ariannol yn fwy eglur. Fodd bynnag, clywsom bryderon sylweddol yn ystod ein cyfweliadau bod gwiriadau a rheolaethau canolog ychwanegol yn cael eu sefydlu ar gyfer gwariant sydd o fewn awdurdod dirprwyedig deiliaid cyllidebau, fel a nodir yn y SORD. Clywsom bryderon bod y gwiriadau pellach hyn yn cyfrannu at oedi wrth wneud penderfyniadau.

71 Er y tybir o bosibl bod y rheolaethau canolog ychwanegol hyn yn angenrheidiol, maent yn dynodi nad oes hyder llawn yng ngallu deiliaid cyllidebau i reoli o fewn eu cyllidebau dirprwyedig, a bod cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd i feithrin diwylliant o gyfrifoldeb, ymddiriedaeth ac aeddfedrwydd ariannol yn y sefydliad. Gallai hyn adlewyrchu gwendidau hanesyddol mewn rheoli ariannol yn y Bwrdd Iechyd, gyda rhai deiliaid cyllidebau'n gorwario a phryderon ynghylch ansawdd achosion busnes. Yn ystod cyfweliadau, clywsom hefyd fod hanes o fewn y sefydliad o ddeiliaid cyllidebau'n dibynnu'n ormodol ar gyflwyno achosion busnes am gyllid ychwanegol, yn hytrach na blaenoriaethu gwariant o fewn eu cyllidebau presennol.

72 Yn fwy defnyddiol, mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu hyfforddiant caffael fel bod staff yn gwybod sut i brynu nwyddau a gwasanaethau'n gywir. Mae hefyd yn cynnig adnoddau defnyddiol, gan gynnwys Llawlyfr Rheolwr Cyllideb a chanllaw i brynu nwyddau a gwasanaethau. Dylai'r deunyddiau hyn helpu staff i ddilyn arfer ariannol da yn y dyfodol.

73 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella sut y mae'n paratoi ei gyfrifon blynyddol. Cafodd cyfrifon 2024-25 farn ddiamod ynglŷn â'u Cywirdeb a'u Tegwch. Fodd bynnag, cawsant hefyd farn reoleiddiol amodol am na wnaeth y Bwrdd Iechyd adennill costau rhwng 2022-23 a 2024-25. Dim ond mân wallau a ganfu ein harchwiliad o'r cyfrifon, ac fe gywirwyd y rheiny yn ystod yr adolygiad. Fe wnaethom hefyd nodi gwelliannau mawr yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

## Monitro perfformiad ariannol

74 Mae adroddiadau ariannol i'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth a'r Bwrdd yn dal i fod yn brydlon, yn gynhwysfawr ac yn dryloyw. Maent yn darparu dadansoddiad da o feysydd gwariant, gorwariant, tueddiadau ariannol a risgiau. Mae'r adroddiadau'n nodi'r heriau ariannol byrdymor ac yn adnabod ble y ceir pryderon ariannol penodol.

75 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran ymateb i'n hargymhellion blaenorol mewn perthynas â rheoli ariannol. Mae hyn yn cynnwys argymhellion a wnaed yn ein hadolygiad o Drefniadau Arbed Costau (2024) a'n Hasesiadau Strwythuredig (2024, 2023 a 2022). Mae wedi cryfhau eglurder ei adroddiadau ar arbedion a pherfformiad ariannol. Fodd bynnag, fel a nodwyd yn gynharach mae'n dal yn wir bod angen iddo ddatblygu cynllun ariannol tymor canolig a gwella ei ddull o anfon cytundebau atebolrwydd.

# Argymhellion

76 Mae'r tabl canlynol yn manylu ar yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith.

## Argymhellion

| | |
|---|---|
| **A1** | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod papurau eglurhaol wastad yn cael eu darparu ar gyfer eitemau a ystyrir yn sesiynau preifat cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau (gweler **paragraff 11**). |
| **A2** | Dylai'r Bwrdd Iechyd lanlwytho adroddiadau Rhybuddio, Sicrhau, Cynghori i'r wefan o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod pwyllgor y mae a wnelont ag ef i ategu ymwybyddiaeth o'r materion allweddol a drafodwyd a phenderfyniadau a wnaed cyn bod cofnodion wedi'u cadarnhau'n cael eu cyhoeddi (gweler **paragraff 14**). |
| **A3** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gynyddu cyflymder ei broses i ddiweddaru polisïau risg-uchel (gweler **paragraff 16**). |
| **A4** | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y Bwrdd yn cael cofnodion y Cydbwyllgor Comisiynu ac adroddiadau sicrwydd cysylltiedig i'w alluogi i drafod risgiau a goblygiadau trefniadau comisiynu cenedlaethol (gweler **paragraff 19**). |

**A5** Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei drefniadau arweinyddiaeth weithredol yn ategu ymateb cyfunol ac ar y cyd i heriau allweddol y sefydliad. Rhaid i hyn gynnwys:

**5.1** sicrhau defnydd priodol o gyfrifoldebau ac atebolrwydd dirprwyedig i alluogi'r Prif Weithredwr i fod â'r capasiti i weithredu ar lefel ychydig yn uwch (gweler **paragraff 30**);

**5.2** sicrhau bod yr holl bortffolios Gweithredol yn gallu cael eu cyflawni a'u bod yn briodol, eu bod o gymorth i ddosbarthu cyfrifoldebau'n deg ar draws y Tîm Gweithredol ac yn osgoi'r risg bod arweinyddiaeth ar yr ymateb i brif heriau'r sefydliad yn cael ei hymddiried i ychydig o unigolion yn unig (gweler **paragraff 31**); a

**5.3** enw dirprwy Brif Weithredwr (gweler **paragraff 32**).

**A6** Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau presenoldeb aelod priodol o'r Tîm Gweithredol yn ystod eitemau allweddol ar agendâu pwyllgorau i hwyluso trafodaeth effeithiol (h.y. y pwyllgor archwilio ar gyfer adroddiadau archwilio) (gweler **paragraff 20**).

**A7** Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ganddo'r trefniadau rheoli a llywodraethu rhaglen priodol i roi cymorth i gyflwyno'r Rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol. Yn benodol, mae angen iddo sicrhau:

**7.1** bod ganddo ddigon o gapasiti rheoli i roi cymorth i gyflwyno'r Rhaglen yn brydlon (gweler **paragraff 52**);

**7.2** bod holl aelodau'r Tîm Gweithredol yn cael gweld gwybodaeth briodol am y newidiadau y mae'r Rhaglen yn bwriadu eu dwyn, a'u bod wedi'u halinio'n briodol â'r rheiny (gweler **paragraff 33**); a

**7.3** bod Aelodau Annibynnol yn cael eu briffio'n briodol ar y Rhaglen a'u bod yn cael digon o gyfle i geisio'r sicrwydd y mae ei angen arnynt ynghylch ei gweithredu (gweler **paragraff 52**).

**A8** Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r dull o bennu cyllidebau i symud i ffwrdd oddi wrth y sefyllfa gyfredol lle caiff cyllidebau presennol eu treiglo i sefyllfa sy'n fwy o un sylfaen sero ac sy'n adlewyrchu blaenoriaethau ac anghenion trawsnewid mewn gwahanol rannau o'r sefydliad ynghyd â dull o gynllunio arbedion sy'n fwy seiliedig ar wybodaeth (**gweler paragraff 64**).

**A9** Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cytundebau atebolrwydd yn cael eu hanfon at ddeiliaid cyllidebau yn gynharach yn y flwyddyn ariannol fel rhan o ddull sy'n ei gwneud yn bosibl i'r cytundebau hyn gael eu llofnodi'n fwy prydlon (gweler **paragraff 69**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom fwrw golwg ar y meysydd canlynol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025:

- Pa mor dda y mae'r Bwrdd yn gweithio.
- Pa mor dda y mae'r Bwrdd yn goruchwylio risgiau, perfformiad ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac yn tracio argymhellion.
- Pa mor dda y mae'r corff yn paratoi strategaethau a chynlluniau allweddol.
- Pa mor dda y mae'r corff yn rheoli ei gyllid.

Ni wnaethom fwrw golwg ar drefniadau gweithrediadol y corff.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe wnaeth ein harchwiliad ymdrin â'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r Bwrdd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol, ac yn dryloyw?
- A oes dull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau?
- A oes dull corfforaethol cadarn o gynhyrchu cynlluniau strategol a goruchwylio'r modd y'u cyflawnir?
- A oes dull corfforaethol cadarn lle mae cynllunio, rheoli a pherfformiad ariannol yn y cwestiwn?

### Meini Prawf

Cafodd ein cwestiynau archwilio eu siapio gan y canlynol:

- Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cynlluniau Cadw a Dirprwyo Pwerau.
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol.
- Cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol gan Lywodraeth Cymru; a hefyd
- Y Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru (Ail Rifyn).

# Dulliau

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:

- Papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau.
- Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.
- Strategaethau a chynlluniau allweddol, gan gynnwys y CTCI.
- Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.
- Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Polisïau a gweithdrefnau perthnasol.
- Adroddiadau a baratowyd gan gyrff allanol perthnasol eraill.

Fe wnaethom gyfweld â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Cadeirydd y Bwrdd;
- Is-Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth;
- Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau;
- Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant;
- Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio;
- Y Prif Weithredwr;
- Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid;
- Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth;
- Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol a Thrawsnewid;
- Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol;
- Prif Swyddog Gweithredu;
- Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol; a hefyd
- Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau.

Fe wnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:

- Y Pwyllgor Archwilio;
- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad;
- Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth;
- Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant; a hefyd
- Y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau.

# 2 Argymhellion archwilio blaenorol

## Argymhellion a oedd yn dal yn weddill o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran gweithredu ar argymhellion a oedd yn dal yn weddill o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

| Argymhelliad | Statws |
|---|---|
| **Argymhelliad 1 o 2024**<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd ganlyn arni â'i gynlluniau i gyflwyno trefniadau ar gyfer Pwyllgor Gweithredol a'i drefniadau gweithredu cysylltiedig erbyn mis Ebrill 2025.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Ebrill 2025 | Wedi'i gwblhau (gweler **paragraff 33**). |

| Argymhelliad | Statws |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 2 o 2024**<br><br>Yng nghyd-destun gwaith parhaus mewn perthynas â’r rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol a chryfhau ei drefniadau llywodraethu gweithrediadol, dylai’r Bwrdd Iechyd ddatblygu Cylch Gorchwyl ar gyfer cyfarfodydd ei Uwch Dîm Arwain i eglurhau diben cyfarfodydd ac i sicrhau bod mynychder cyfarfodydd yn ddigon i gyflawni ei rôl yn effeithiol.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Gorffennaf 2025 | Ar y gweill. Mae’r Bwrdd Iechyd yn ein hysbysu ei fod yn ymdrin â’r argymhelliad hwn wrth iddo ganlyn arni â’r rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol. |
| **Argymhelliad 3 o 2024**<br><br>Pan fo’r Bwrdd yn adrodd yn erbyn penderfyniadau a wnaed mewn sesiwn breifat neu drwy Gamau Gweithredu gan y Cadeirydd, dylai sicrhau, lle y bo’n berthnasol, yr adroddir yn glir ar oblygiadau penderfyniadau o ran costau.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Ionawr 2024 | Wedi’i gwblhau (gweler **paragraff 12**). |

| Argymhelliad | Statws |
|---|---|
| **Argymhelliad 4 o 2024**<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adolygu cofnodion yn eitem sefydlog ar agenda pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol (gan gynnwys cyfarfodydd ychwanegol) i sicrhau bod gan y Bwrdd fynediad at ddisgrifiad cywir a phrydlon o'r penderfyniadau a wnaed.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Ionawr 2025 | Wedi'i gwblhau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwelliannau o ran y mater hwn, er ein bod yn nodi y bu oedi cyn cadarnhau'r cofnodion ar gyfer un cyfarfod yn 2025. Byddwn yn parhau i fonitro fel rhan o adolygiadau asesu strwythuredig yn y dyfodol. |
| **Argymhelliad 5 o 2024**<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu rhaglen strwythuredig o ymweliadau gan aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys mecanwaith i ddarparu adborth ar gyfer y Bwrdd.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Mehefin 2025 | Ar y gweill (gweler **paragraff 24**). |

| Argymhelliad | Statws |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 6 o 2024**<br><br>Fel rhan o ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ystyrlon, dylai'r Bwrdd Iechyd ddarparu rhagor o fanylion ategol ar gyfer aelodau'r Bwrdd am ei amcanion strategol i eglurhau'r hyn y mae'r amcanion yn ceisio ei gyflawni.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Ionawr 2025 | Ar y gweill (gweler **paragraff 34**). |
| **Argymhelliad 7 o 2024**<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adroddiadau archwilio sy'n berthnasol i gylch gwaith pwyllgorau eraill y Bwrdd yn cyrraedd y pwyllgorau hynny ac yn cael eu trafod ganddynt, gan gynnwys diweddariadau o bryd i'w gilydd yn erbyn unrhyw argymhellion cysylltiedig.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Ebrill 2025 | Ar y gweill. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cyflwyno adroddiadau archwilio i bwyllgorau perthnasol eraill yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, nid yw pwyllgorau'n cael diweddariadau yn erbyn argymhellion yn dilyn cael yr adroddiad. |

| Argymhelliad | Statws |
|---|---|
| **Argymhelliad 8 o 2024**<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn ymgysylltu'n briodol ag aelodau'r Bwrdd a phartneriaid ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn y broses o ddatblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig neu Gynlluniau Blynyddol yn y dyfodol.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Ebrill 2025 | Ar y gweill (gweler **paragraff 49**). |
| **Argymhelliad 9 o 2024**<br><br>Lle mae angen i'r Bwrdd Iechyd gario camau gweithredu ymlaen o un Cynllun Blynyddol i'r nesaf, dylai sicrhau bod adroddiadau cynnydd yn glir o ran pa gamau gweithredu a dynnwyd yn ôl neu a gariwyd ymlaen a darparu cerrig milltir eglur a realistig ar gyfer y camau gweithredu hynny.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Ebrill 2025 | Wedi'i gwblhau (gweler **paragraff 58**). |

| Argymhelliad | Statws |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 1 o 2023**<br><br>Ar hyn o bryd, ceir dryswch ynghylch faint o ddiwrnodau cyn cyfarfodydd y dylid trefnu bod papurau ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau ar gael yn gyhoeddus. Dylai'r Bwrdd Iechyd gytuno a chyfleu dyddiad targed cyson ar gyfer cyhoeddi agendâu cyn cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Mai 2024 | Wedi'i gwblhau (gweler **paragraff 13**). |
| **Argymhelliad 2 o 2023**<br><br>Mae cofnodion rhai o gyfarfodydd pwyllgorau'n eisiau o'r wefan fisoedd lawer ar ôl dyddiad y cyfarfod. Mae hyn yn effeithio ar fynediad cyhoeddus prydlon at drafodaethau pwyllgorau. Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno trefniadau i sicrhau bod y cyhoedd yn cael mynediad mwy prydlon at gofnodion cyfarfodydd pwyllgorau fel rhan o'i ymdrechion ehangach i wella tryloywder busnes y Bwrdd.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Gorffennaf 2024 | Wedi'i gwblhau (gweler **paragraff 14**). |

| Argymhelliad | Statws |
|---|---|
| **Argymhelliad 3 o 2023**<br><br>Bu gostyngiad diesboniad sylweddol hefyd yn nifer y cwynion a gafwyd ar gyfer chwe mis cyntaf 2023-24 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio ar frys i ddarganfod y rheswm er mwyn sicrhau nad yw cwynion yn cael eu colli neu na chamadroddir arnynt.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Mehefin 2024 | Wedi'i ddisodli. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd adolygu data cwynion ar gyfer y cyfnod hwn. Er na chanfuwyd achos eglur ar gyfer y duedd yn y data, mae'r Bwrdd Iechyd yn hyderus bod y System Rheoli Ansawdd newydd yn ei gwneud yn bosibl monitro cwynion yn well ac ymateb yn well iddynt. |

| Argymhelliad | Statws |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 5 o 2023**<br><br>Ar hyn o bryd nid oes digon o oruchwyliaeth gan bwyllgorau i fonitro cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion cyrff nad ydynt yn rhai archwilio. Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno goruchwyliaeth effeithiol gan bwyllgorau i fonitro cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion rheoleiddwyr gan gynnwys, ymhlith eraill, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Crwner, Comisiynydd y Gymraeg, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Awst 2024 | Wedi'i gwblhau. Adroddir yn rheolaidd ar argymhellion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wrth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad trwy'r Adroddiad Gwella Ansawdd. |

| Argymhelliad | Statws |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 7 o 2023**<br><br>Mae'n anodd gweld i ba raddau yr oedd nodau a mentrau gwella'r Bwrdd Iechyd a oedd wedi'u nodi yng Nghynllun Blynyddol 2023-24 yn fforddiadwy yn ariannol. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu strategaeth ariannol, a ategir gan gynllun ariannol tymor canolig gan amcanu at ategu modelau gwasanaeth cynaliadwy o ansawdd da a lleihau diffyg y Bwrdd Iechyd a'i ddiffyg sylfaenol.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Awst 2024 | Dim cynnydd (gweler **paragraff 63**). |
| **Argymhelliad 8 o 2023**<br><br>Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio'n cael sicrwydd ynghylch y cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud i fynd i'r afael â'r ystod lawn o faterion a adnabuwyd yn yr archwiliad o gyfrifon 2021-22 a 2022-23 gan Archwilio Cymru, a'r adolygiad diwedd blwyddyn dilynol sydd wedi bod yn arafach nag a fwriadwyd.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Medi 2024 | Wedi'i gwblhau. |

| Argymhelliad | Statws |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 2 o 2022**<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fireinio adroddiadau am berfformiad i mewn i'r Bwrdd a phwyllgorau. Fodd bynnag, ceir pryderon o hyd ynghylch ansawdd yr adroddiad ar berfformiad ac i ba raddau y bydd camau gweithredu a nodwyd yn arwain at y gwelliannau bwriadedig. Dylai'r Bwrdd Iechyd wella ei adroddiadau sicrwydd perfformiad, gan ganolbwyntio'n fwy ar effaith camau gwella perfformiad.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: 31 Gorffennaf 2023 | Wedi'i gwblhau (gweler **paragraff 37**). |
| **Argymhelliad 4 o 2022**<br><br>Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer sylweddol o bolisïau sy'n hwyr yn cael eu hadnewyddu, sy'n gadael y sefydliad yn agored i risgiau i wasanaethau a risgiau gweinyddol. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a diweddaru polisïau'r Bwrdd Iechyd, gan flaenoriaethu polisïau pwysigrwydd uchel yn gyntaf, gan gynnwys y polisi ar bolisïau.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Medi 2023 | Wedi'i gwblhau. Er nad yw'r holl bolisïau wedi cael eu diweddaru a bod cynnydd pellach i'w wneud **(gweler paragraff 16)** cafodd y polisi ar gyfer rheoli polisïau, gweithdrefnau a dogfennau ysgrifenedig eraill a reolir ar draws y Bwrdd cyfan ei ddiweddaru yn 2024 ac mae cynllun yn ei le i adolygu polisïau sy'n hwyr yn cael eu hadnewyddu, gan gynnwys blaenoriaethu polisïau pwysigrwydd uchel yn gyntaf. |

| Argymhelliad | Statws |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 8 o 2022**<br><br>Canfuom dystiolaeth gyfyngedig o sut y mae’r Bwrdd Iechyd yn gweithredu gofal iechyd seiliedig-ar-werthoedd yn weithrediadol yn ei wasanaethau i gynyddu gwerth ac effeithlonrwydd i’r eithaf. Dylai’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adroddiadau ar ei raglen gofal iechyd seiliedig-ar-werthoedd yn canolbwyntio ar y canlyniadau a gyflawnir.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Rhagfyr 2023 | Wedi’i gwblhau. Mae’r Bwrdd Iechyd yn gallu dangos ei fod yn monitro metrigau canlyniadau mewn perthynas â’i raglen gofal iechyd seiliedig-ar-werthoedd. |

| Argymhelliad | Statws |
|---|---|
| **Argymhelliad 12 o 2022**<br><br>Mae angen sefydlu trefniadau i ddeall effaith strategaethau digidol ac ystadau, yn ogystal â dichonoldeb ariannol y strategaeth. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>• adolygu unrhyw fylchau cyllido yn y strategaethau digidol ac ystadau i benderfynu a ydynt yn ddichonadwy yn ariannol a rhoi diweddariadau i'r pwyllgor perthnasol am ganfyddiadau'r adolygiad o ddichonoldeb ariannol a sut y bydd unrhyw risgiau cysylltiedig yn cael eu rheoli.<br>• cyflwyno adroddiadau i bwyllgorau bob hyn a hyn sy'n canolbwyntio nid dim ond ar gamau gweithredu a gwblhawyd ond ar yr effaith y mae ei strategaethau digidol ac ystadau'n ei chael ar y sefydliad.<br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Rhagfyr 2023 | Ar y gweill. Er bod y Bwrdd Iechyd yn gallu dangos peth gweithgarwch i adnabod bylchau cyllido yn ei uchelgeisiau digidol, nid ydym wedi gweld tystiolaeth o hyn mewn perthynas ag ystadau, ac nid ydym ychwaith wedi gweld diweddariadau am y naill strategaeth na'r llall i bwyllgorau. |

# Argymhellion o'n Hadolygiad yn 2024 o Drefniadau Arbed Costau

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran rhoi argymhellion ar waith o'n Hadolygiad yn 2024 o Drefniadau Arbed Costau.

| Argymhelliad | Statws |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 1 o 2025**<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd geisio cael perchnogaeth well ar dargedau ariannol a gofynion o ran arbedion gan Gyfarwyddiaethau a'r Cymunedau Iechyd Integredig trwy:<br><br>• Ddangos bod cyllidebau sylfaen wedi'u goleuo gan ddealltwriaeth eglur am gostau'r gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu.<br>• Sicrhau bod targedau arbedion yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r cyfleoedd gwirioneddol sy'n bodoli mewn Cyfarwyddiaethau a Chymunedau Iechyd Integredig yn hytrach na tharged arbedion ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan.<br>• Sicrhau bod llythyrau atebolrwydd yn cael eu hanfon yn brydlon a'u bod yn nodi'n glir beth yw rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd Cyfarwyddiaethau, Cymunedau Iechyd Integredig a'r canol corfforaethol.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Hydref 2025 | Ar y gweill (gweler **paragraff 65**) |

| Argymhelliad | Statws |
|---|---|
| **Argymhelliad 2 o 2025**<br><br>Dylai’r Bwrdd Iechyd gryfhau ei ddull o adnabod a chyflawni arbedion trwy:<br>• Adnabod cynlluniau arbedion hyfyw i gyrraedd targed arbedion y Bwrdd Iechyd ar y cyfan yn gynharach yn y cylch cynllunio ariannol.<br>• Cymryd camau cywiro cynharach i roi cynlluniau arbedion sy’n tanberfformio yn ôl ar y trywydd iawn.<br>• Cadw ffocws ar adnabod cynlluniau arbedion sy’n dwyn arbedion cylchol.<br>• Sicrhau mwy o ymgysylltu gan glinigwyr â gwaith i ddatblygu a chyflawni cynlluniau arbedion.<br>• Cyflwyno proses uwchgyfeirio wedi’i ffurfioli’n fwy lle nad yw Cyfarwyddiaethau a Chymunedau Iechyd Integredig yn cyrraedd eu targedau arbedion.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Gorffennaf 2025 | Ar y gweill (gweler **paragraff 65**) |

| Argymhelliad | Statws |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 3 o 2025**<br><br>Wrth ddiweddaru ei ganllawiau arbedion, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau:<br>• Bod y canllawiau'n darparu mwy o eglurder ynghylch sut a phryd y dylid canfasio barn defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid yn y broses o greu syniadau am arbedion.<br>• Bod y canllawiau'n adlewyrchu'r dull arbedion newydd yn seiliedig ar fframwaith ei Fwrdd sy'n ymwneud â Gwerth a Cynaliadwyedd.<br>• Bod y canllawiau'n disgrifio'n glir beth yw'r trefniadau ar gyfer asesu effaith cynlluniau arbedion ar ansawdd a diogelwch cleifion, sut y maent yn ategu blaenoriaethau strategol y Bwrdd Iechyd, ac yn effeithio ar wasanaethau eraill, yn ogystal ag integreiddio â mentrau eraill (megis Gofal Iechyd Seiliedig-ar-Werthoedd).<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Mawrth 2025 | Ar y gweill. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diweddaru ei ganllawiau arbedion i adlewyrchu'r dull gwerth a chynaliadwyedd newydd ac i gyfeirio rheolwyr at ganllawiau asesu effaith. Mae rhagor o ddiweddariadau yn yr arfaeth hefyd wrth i'r Bwrdd Iechyd newid i ddull o ddyrannu targedau arbedion i adrannau. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 4 o 2025**<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adroddiadau ar arbedion yn y dyfodol yn rhoi disgrifiadau clir o'r arbedion y mae angen iddo'u cyflawni mewn blwyddyn benodol i gwrdd â'i gyfanswm rheoli gan Lywodraeth Cymru.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Tachwedd 2024 | Wedi'i gwblhau (gweler **paragraff 76**) |
| **Argymhelliad 5 o 2025**<br><br>5.1 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ganddo raglen glir i ymdrin â'r bylchau mewn gallu ariannol ar draws y sefydliad i sicrhau bod gan reolwyr gweithrediadol y sgiliau angenrheidiol i ategu trefniadau cynllunio ariannol a chyflawni arbedion.<br>5.2 Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu trefniadau i gynorthwyo Aelodau Annibynnol i gael dealltwriaeth well am sefyllfa ariannol y sefydliad.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Tachwedd 2024 | Wedi'i gwblhau (gweler **paragraff 75**) |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 6 o 2025**<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd fabwysiadu dull mwy systematig o adnabod a rhannu gwersi am gyflawni cynlluniau arbedion. Dylai hyn gynnwys gwersi a ddysgwyd o gynlluniau arbedion y Bwrdd Iechyd sydd wedi methu neu danberfformio a rhannu arfer da o'r dull o ymdrin â chynlluniau arbedion mewn sefydliadau eraill.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Tachwedd 2024 | Wedi'i gwblhau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ein hysbysu ei fod yn gweithio'n rhagweithiol gyda sefydliadau eraill yn GIG Cymru i adnabod a rhannu cynlluniau arbedion posibl. |

# 3 Ymatebion y rheolwyr

| Cyf | Argymhellion | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod papurau eglurhaol wastad yn cael eu darparu ar gyfer eitemau a ystyrir yn sesiynau preifat cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau. | Mae templed adroddiadau newydd y Bwrdd Iechyd yn cynnwys y 'sail resymegol' ar gyfer ystyried eitemau mewn sesiwn Breifat gan y Bwrdd a Phwyllgorau; mae hyn ochr yn ochr â'r Protocol a gymeradwywyd gan y Bwrdd.<br><br>Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod y protocol yn cael ei gymhwyso'n gyson a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Cadeirydd a Chadeiryddion Pwyllgorau. | Diwedd Mehefin 2026 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Argymhellion | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **A2** | Dylai'r Bwrdd Iechyd lanlwytho adroddiadau Rhybuddio, Sicrhau, Cynghori i'r wefan o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod pwyllgor y mae a wnelont ag ef i ategu ymwybyddiaeth o'r materion allweddol a drafodwyd a phenderfyniadau a wnaed cyn bod cofnodion wedi'u cadarnhau'n cael eu cyhoeddi. | Mae'r Adroddiadau Rhybuddio, Sicrhau, Cynghori yn cael eu cynnwys ym Mhapurau'r Bwrdd.<br><br>Bydd y Gyfarwyddiaeth Llywodraethu Corfforaethol yn 'creu' adran newydd ar y dudalen we sy'n cynnwys papurau pwyllgorau i sicrhau bod y rhain ar gael ac yn hygyrch iawn. | Medi 2026 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| **A3** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gynyddu cyflymder ei broses i ddiweddaru polisïau risg-uchel. | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran lleihau nifer y polisïau sy'n hwyr yn cael eu diweddaru.<br><br>Bydd y Bwrdd Iechyd yn amcanu at ddileu nifer y polisïau risg-uchel erbyn diwedd 2027 (ac eithrio Polisïau Cymru Gyfan) sy'n cyd-fynd â'r gwelliant mewn prosesau polisïau. | Mawrth 2027 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Argymhellion | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **A4** | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y Bwrdd yn cael cofnodion y Cydbwyllgor Comisiynu ac adroddiadau sicrwydd cysylltiedig i'w alluogi i drafod risgiau a goblygiadau trefniadau comisiynu cenedlaethol. | Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod yr adroddiadau a'r cofnodion ar gael yn yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol | Mehefin 2026 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| **A5** | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei drefniadau arweinyddiaeth weithredol yn ategu ymateb cyfunol ac ar y cyd i heriau allweddol y sefydliad. Rhaid i hyn gynnwys:<br>5.1 Sicrhau defnydd priodol o gyfrifoldebau ac atebolrwydd dirprwyedig i alluogi'r Prif Weithredwr i fod â'r capasiti i weithredu ar lefel ychydig yn uwch. | Gweler isod.<br><br>Rhoi'r Datganiad Cyfarwyddwr Atebolrwydd ar gyfer 2026/27 ar waith, a fydd yn sicrhau bod Cyfarwyddwyr yn gweithredu o fewn y trefniadau dirprwyo. | Mawrth 2027 | |

| Cyf | Argymhellion | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | 5.2 Sicrhau bod yr holl bortffolios Gweithredol yn gallu cael eu cyflawni a'u bod yn briodol, eu bod o gymorth i ddosbarthu cyfrifoldebau'n deg ar draws y Tîm Gweithredol ac yn osgoi'r risg bod arweinyddiaeth ar yr ymateb i brif heriau'r sefydliad yn cael ei hymddiried i ychydig o unigolion yn unig. | Mae adolygiad o bortffolios Gweithredol wedi cael ei gwblhau fel rhan o'r Rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol, lle mae swyddogaethau angenrheidiol wedi cael eu hailalinio a lle byddir yn canlyn arni â hwy fel rhan o gam 'cyflawni' y Rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol. | Mehefin 2026 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol<br><br>Prif Weithredwr |
| | 5.3 Enwi dirprwy Brif Weithredwr. | Bydd y Prif Weithredwr yn ystyried dynodi'r Dirprwy Brif Weithredwr nawr bod y Tîm Gweithredol yn ei le. | Medi 2026 | Prif Weithredwr |
| **A6** | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau presenoldeb aelod priodol o'r Tîm Gweithredol yn ystod eitemau allweddol ar agendâu pwyllgorau i hwyluso trafodaeth effeithiol (h.y. y pwyllgor archwilio ar gyfer adroddiadau archwilio). | Bydd Swyddogion Gweithredol Arweiniol yn cael eu hadnabod ar gyfer presenoldeb mewn cyfarfodydd lle mae adroddiad penodol yn cael ei gyflwyno y mae gofyn cael mewnbwn iddo ganddynt hwy. | Mehefin 2026 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Argymhellion | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **A7** | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ganddo'r trefniadau rheoli a llywodraethu rhaglen priodol i roi cymorth i gyflwyno'r Rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol. Yn benodol, mae angen iddo sicrhau: | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael adroddiadau ar gynnydd yn erbyn y Rhaglen Sylfeini ar gyfer y Dyfodol; bydd mynychder a rheoleidd-dra'r adroddiadau'n cynyddu wrth i'r rhaglen symud trwy'r cam 'cyflawni' ac i'r cam ymgynghori: | Mawrth 2027 | Cyfarwyddwr y Rhaglen |
| | 7.1 Bod ganddo ddigon o gapasiti rheoli i roi cymorth i gyflwyno'r Rhaglen yn brydlon. | O fis Mawrth 2026 ymlaen byddir yn sicrhau bod capasiti rheolwyr yn dal i gyd-fynd ag anghenion y rhaglen trwy adolygiad parhaus o adnoddau a ddarperir ar gyfer ffrydiau gwaith a chymorth Tîm Rhaglen wedi'i gryfhau lle y bo'n ofynnol. | | |
| | 7.2 Bod holl aelodau'r Tîm Gweithredol yn cael gweld gwybodaeth briodol am y newidiadau y mae'r Rhaglen yn bwriadu eu dwyn, a'u bod wedi'u halinio'n briodol â'r rheiny. | Bydd aliniad Gweithredol yn cael ei gefnogi trwy adolygiad Gweithredol o'r Adroddiad ar y Prif Bwyntiau ar gyfer y Rhaglen a chyfranogiad parhaus mewn Astudiaethau Dwfn o Ffrydiau Gwaith. | | |
| | 7.3 Bod Aelodau Annibynnol yn cael eu briffio'n briodol ar y Rhaglen a'u bod yn cael digon o gyfle i geisio'r sicrwydd y mae ei angen arnynt ynghylch ei gweithredu. | Bydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn cael adroddiadau rheolaidd yn erbyn cyflawni'r rhaglen gyda sesiynau ychwanegol yn cael eu trefnu ar gyfer y Bwrdd llawn fel y bo angen. | | |

| Cyf | Argymhellion | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd ymgysylltiad â staff yn parhau trwy Gynllun Cyfathrebu'r Rhaglen a'r tudalennau a neilltuwyd iddi ar y fewnrwyd sy'n darparu gwybodaeth hygyrch, gyfoes. | | |
| **A8** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r dull o bennu cyllidebau i symud i ffwrdd oddi wrth y sefyllfa gyfredol lle caiff cyllidebau presennol eu treiglo i sefyllfa sy'n fwy o un sylfaen sero ac sy'n adlewyrchu blaenoriaethau ac anghenion trawsnewid mewn gwahanol rannau o'r sefydliad ynghyd â dull o gynllunio arbedion sy'n fwy seiliedig ar wybodaeth. | Yn 2025-26, defnyddiwyd dull o bennu'r gyllideb bob yn dipyn, gan sefydlu costau a phwysau o ran costau (yn rhai cyfredol ac yn y dyfodol) gyda datblygiadau'n cyd-fynd â'r adnoddau sydd ar gael. Gall cyllidebau i ddarparu gwasanaethau gael eu hailgyflunio o fewn y broses hon a'u diwygio trwy gydol y flwyddyn ariannol.<br><br>Bydd y Bwrdd Iechyd yn rhoi methodoleg sylfaen sero ar waith i bennu'r gyllideb ar gyfer 2027-28, a fydd yn golygu, er bod hynny'n mynd ag amser, bod gofyn cyfiawnhau pob cost a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau cyflawni. Fodd bynnag, bydd cyflawni'n llwyddiannus yn golygu bod yn rhaid wrth lefel o aeddfedrwydd pellach gan ddeiliaid | Mawrth 2027 | Cyfarwyddwr Cyllid |

| Cyf | Argymhellion | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| | | cyllidebau ar y cyd â strategaethau eglur i roi arweiniad ar gyfer blaenoriaethu adnoddau (yn rhai Clinigol ac o ran Ystadau) a llinellau dirprwyo ac atebolrwydd clir.<br><br>Bydd y rhaglen o waith Gwerth a Chynaliadwyedd yn ysgogi gwelliant, ynghyd â meincnodi gwasanaethau. Wedyn bydd cyfanswm y manteision ariannol yn cael eu dadansoddi dros dair blynedd ariannol y Cynllun Tymor Canolig Integredig i ddileu'r diffyg sylfaenol, gan gryfhau'r modd y cyflawnir arbedion yn y dyfodol a'i gwneud yn bosibl cymhwyso effeithlonrwydd dyrannol. | | |
| **A9** | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cytundebau atebolrwydd yn cael eu hanfon at ddeiliaid cyllidebau yn gynharach yn y flwyddyn ariannol fel rhan o ddull sy'n ei gwneud yn bosibl i'r cytundebau hyn gael eu llofnodi'n fwy prydlon. | Bydd Cytundebau Atebolrwydd yn cael eu hanfon ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. | Ebrill 2026 | Cyfarwyddwr Cyllid |

# 4 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **CAMPUS** | Fframwaith tra hysbys ar gyfer pennu amcanion eglur ac effeithiol yw CAMPUS. Ei ystyr yw Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol. |
| **Cofrestr Buddiannau** | Mae'r Gofrestr Buddiannau'n helpu i sicrhau tryloywder trwy gofnodi unrhyw fuddiannau personol neu fusnes gan aelodau'r Bwrdd a staff a allai ddylanwadu ar benderfyniadau. |
| **Cofrestr Risgiau Corfforaethol** | Mae Cofrestr Risgiau Corfforaethol yn nodi risgiau arwyddocaol y sefydliad (naill ai'r rhai â sgoriau uchel neu ag effaith ar draws y sefydliad cyfan) a'r camau gweithredu sydd yn eu lle i'w rheoli. |
| **Colledion** | Mae colledion yn cynnwys pethau fel lladrad, twyll, gordaliadau, neu ddifrod i eiddo. |
| **Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog** | Mae Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn nodi'r cyfrifoldebau, polisïau a gweithdrefnau ariannol a fabwysiadwyd gan y sefydliad. |
| **Cynllun Cadw a Dirprwyo** | Mae'r Cynllun Cadw a Dirprwyo'n nodi pa gyfrifoldebau sy'n aros gyda'r Bwrdd, a pha rai a drosglwyddir i bwyllgorau a swyddogion gweithredol, ynghyd â threfniadau adrodd i sicrhau goruchwyliaeth briodol. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cynllun Tymor Canolig Integredig** | Cynllun tair blynedd yw Cynllun Tymor Canolig Integredig sy’n nodi sut y bydd y sefydliad yn darparu ei wasanaethau, yn rheoli ei weithlu, ac yn cyflawni ei ddyletswyddau ariannol i adennill costau. Mae’r sefydliad yn cyflwyno ei gynllun i Lywodraeth Cymru i gael ei gymeradwyo. |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015)** | Mae’r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio’n gynaliadwy ac yn gydweithredol i wella llesiant ar draws meysydd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, trwy bennu nodau hirdymor (a elwir yn amcanion llesiant), cynnwys dinasyddion, a gwneud penderfyniadau sy’n ystyried yr effaith ar genedlaethau’r dyfodol. |
| **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** | Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn nodi’r risgiau sy’n gysylltiedig ag amcanion strategol y sefydliad, a’r rheolaethau a’r sicrwydd sydd yn eu lle i reoli’r risgiau hynny. |
| **Gweithred Tendr Sengl** | Ystyr Gweithred Tendr Sengl yw pan fo sefydliad yn prynu nwyddau neu wasanaethau gan un cyflenwr heb fynd trwy broses gystadleuol, fel arfer am mai dim ond un opsiwn addas sydd neu am bod eu hangen ar frys. |
| **Gwrth-Dwyll** | Mae gwrth-dwyll yn cyfeirio at y gweithgarwch a gyflawnir gan y sefydliad i atal, canfod ac ymchwilio i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth. Arweinir y gwaith hwn gan Wasanaeth Gwrth-Dwyll y GIG yng Nghymru, sy’n gweithredu dan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Llywodraethu Ansawdd** | Ystyr llywodraethu ansawdd yw'r cyfuniad o strwythurau, prosesau ac ymddygiadau a ddefnyddir gan sefydliad, yn enwedig ei fwrdd, i arwain ar berfformiad a sicrhau perfformiad o ansawdd da, gan gynnwys diogelwch, effeithiolrwydd, a phrofiad cleifion. |
| **Rheolau Sefydlog** | Mae rheolau sefydlog yn nodi'r rheolau a gweithdrefnau ar gyfer sut y mae'r sefydliad yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau. |
| **Strategaeth Glinigol** | Cynllun hirdymor sy'n helpu i siapio sut y caiff gwasanaethau gofal iechyd eu dylunio a'u darparu i ddiwallu anghenion cleifion a chymunedau yw Strategaeth Glinigol. |
| **Taliadau Arbennig** | Ystyr taliadau arbennig yw taliadau unigol a wneir mewn sefyllfaoedd anarferol – fel iawndal neu arwydd o ewyllys da – sydd y tu allan i weithgarwch busnes arferol y sefydliad. |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.